Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014
Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2017

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ("y Cyngor") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ("y Gorchymyn") a ganlyn drwy arfer ei bwerau o dan Adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall;

1. Gellir dyfynnu'r Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2017:

2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 20fed HYDREF 2017 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o dair blynedd oni bai y caiff ei amrywio neu ei ryddhau gan orchmynion pellach y Cyngor:

3. **Cyflwyniad**

(a) Mae'r methiant i "godi" ar ôl i gi faeddu ar dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn fater pwysig yn yr amgylchedd lleol yn gyffredinol. Mae'r effaith yn niweidiol ar ansawdd bywyd yn y gymuned yn gyffredinol. Mae'n achosi peryglon i iechyd ac yn difwyno'r tir. Felly mae'n bwysig bod y gymuned yn cydnabod yr angen i lanhau ar ôl eu cŵn ac i sicrhau bod ganddynt gynhwysydd priodol ar gyfer gwneud hynny bob amser.

(b) Pan nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n iawn a'u cadw o dan reolaeth, gall cŵn a ganiateir oddi ar dennyn mewn mannau cyhoeddus achosi niwsans ac anaf i aelodau o'r cyhoedd ac anifeiliaid eraill.

(c) Gall cŵn mewn mannau chwarae plant fod yn ymosodol os cant fraw. Efallai y byddant hefyd yn baeddu yn yr ardaloedd hyn, a gall hyn achosi risg i iechyd i'r plant sy'n eu defnyddio.

(d) Mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud oherwydd bod y Cyngor yn fodlon ar sail resymol bod yr ymddygiad a nodwyd uchod wedi cael ac yn debygol o barhau i gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y Fwrdeistref Sirol. Ar ben hynny fod yr effaith yn debygol o fod o natur barhaus ac yn neu a fydd yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r gofynion a nodir yn y Gorchymyn hwn sy'n ceisio atal neu leihau effeithiau niweidiol y gweithgareddau y cyfeirir atynt uchod, drwy osod cyfyngiadau rhesymol a gofynion ar bobl tra yn gyfrifol am gŵn ar dir cyhoeddus.

4. **Diffiniadau**

(a) Mae "Person (au) Awdurdodedig" yn golygu cwnstabl neu berson a awdurdodir gan y Cyngor o dan Adran 68 o'r Ddeddf.

(b) Mae "Cynhwysydd priodol" yn golygu unrhyw fag, neu gynhwysydd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y diben o storio baw cŵn ar gyfer gwaredu.

(c) "At ddibenion y Gorchymyn hwn "anabledd "yw cyflwr sy'n gymwys fel anabledd at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a "person anabl" yw person sydd ag anabledd o'r fath.

5. **Cyfyngiadau a Gofynion**

(a) Effaith y Gorchymyn yw gosod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y nodir yn Rhannau 1 i 5 isod.

Rhan 1 - Baeddu gan Gŵn

1. Os bydd ci yn baeddu ar unrhyw adeg ar dir y mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn gymwys iddo, a bod y person sydd â gofal dros y ci ar y pryd yn methu â symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, bydd y person hwnnw yn euog o dramgwydd oni bai gall ddangos: -

(a) Bod ganddynt esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) Mae perchennog, y deiliad, neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud hynny;

2. Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn gymwys i bob man cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

At y dibenion hyn, mae "man cyhoeddus" yn golygu unrhyw fan y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad ato, ar daliad neu fel arall, fel hawl neu drwy rinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg.

3. At ddibenion y Rhan hon o'r Gorchymyn: -

(a) Bydd gosod y baw mewn cynhwysydd a ddarperir at y diben hwn, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, ar y tir, yn ddigon i ystyried ei fod yn cael ei symud oddi ar y tir;

(b) Mae peidio â bod yn wybodus o'r baeddu (p'un ai oherwydd peidio â bod yn y cyffiniau neu am reswm arall), neu beidio â chael teclyn neu ddull arall addas o gael gwared ar y baw ci, ddim yn rheswm digonol dros fethu â symud y baw ci;

Rhan 2 - Cludo Cynhwysydd Addas

1. Os na fydd person sydd â gofal dros gi ar dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn gymwys iddo ar unrhyw adeg gyda chynhwysydd priodol neu yn dangos un ar gais Person Awdurdodedig, bydd y person hwnnw yn euog o drosedd oni bai:-

(a) bod ganddynt esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) mae perchennog, y deiliad, neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud hynny.

2. Mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn gymwys i bob man cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

At y dibenion hynny, mae "man cyhoeddus" yn golygu unrhyw fan y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad ato, ar daliad neu fel arall, fel hawl neu drwy rinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg.

Rhan 3 - Cŵn ar dennyn mewn Gerddi Coffa Amgaeëdig

1. Bydd person sydd â gofal dros gi yn euog o dramgwydd os yw'r person hwnnw yn cymryd ci i mewn i neu yn caniatáu i gi fynd i mewn a/neu aros yn unrhyw un o'r Gerddi Coffa Amgaeëdig a nodir yn Atodiad 2 heb fod o dan reolaeth gyda thennyn nid yn fwy na dau fedr o hyd oni bai gall y person hwnnw yn gallu dangos :-

(a) Bod ganddynt esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) Mae perchennog, y deiliad, neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud hynny.

2. At y dibenion hyn, mae "tennyn" yn golygu unrhyw raff, gortyn, tennyn neu eitem debyg a ddefnyddir i reoli neu atal ci, ond nid yw'n cynnwys unrhyw eitem o'r fath nad yw'n cael ei ddefnyddio'n weithredol fel modd o ataf fel bod y ci yn parhau i fod o dan reolaeth agos y person.

Rhan 4 - Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd

1. Bydd person sydd â gofal dros gi yn euog o dramgwydd os byddent, ar dir y mae'r rhan hon yn gymwys iddo, yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddynt gan y Swyddog Awdurdodedig i roi a chadw ci ar dennyn o ddim mwy na dau fedr o hyd am unrhyw gyfnod ac/neu o dan unrhyw amgylchiadau yn ôl cyfarwydd y Swyddog, oni bai fod y person yn gallu dangos :-

(a) bod ganddynt esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) mae perchennog, y deiliad, neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud hynny.

2. At y dibenion hyn, mae "tennyn" yn golygu unrhyw raff, gortyn, tennyn neu eitem tebyg a ddefnyddir i reoli neu atal ci, ond nid yw'n cynnwys unrhyw eitem o'r fath nad yw'n cael ei ddefnyddio'n weithredol fel modd o atal fel bod y ci yn parhau i fod o dan reolaeth agos y person.

3. Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn gymwys i bob man cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

At y dibenion hyn, mae "man cyhoeddus" yn golygu unrhyw fan y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad ato, ar daliad neu fel arall, fel hawl neu drwy rinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg.

4. At ddibenion y Rhan hon o'r Gorchymyn, gall Berson Awdurdodedig gyfarwyddo person i gadw ci ar dennyn os bydd ataliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sy'n debygol o achosi blinder neu aflonyddwch i unrhyw berson arall, neu aflonyddu sy'n peri pryder neu unrhyw anifail yn unig.

Rhan 5 - Gwahardd Cŵn Mewn Mannau Chwarae i Blant/Mannau Gemau Amiddefnydd

1. Bydd person sydd â gofal dros gi yn euog o dramgwydd os yw'r person hwnnw yn cymryd ci i mewn i neu yn caniatáu i gi fynd i mewn neu aros yn unrhyw un o'r mannau chwarae/mannau gemau amlddefnydd amgaeedig i blant a restrir yn Atodiad 1 i'r Gorchymyn hwn, oni bai fod y person yn gallu dangos :-

(a) bod ganddynt esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) mae perchennog, y deiliad, neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud hynny.

Eithriadau

1. Ni fydd y darpariaethau yn **Rhannau 1 a 2** o'r Gorchymyn yn gymwys i berson sydd:-

(a) Wedi ei gofrestru fel rhannol ddall neu'n ddall, mewn cofrestr a luniwyd o dan Adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) Wedi ei gofrestru â "nam ar y golwg", â "nam difrifol ar y golwg" neu "fel cael namau ar y golwg a namau ar y clyw sydd, ar y cyd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd bob dydd", mewn cofrestr a luniwyd o dan Adran 18 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; neu

(c) Sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddeheurwydd llaw, cydsymud corfforol, neu'r gallu i fyw, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, fel na ellir yn rhesymol ddisgwyl i'r person i symud y baw ci.

(d) Sydd â rhyw anabledd arall, fel na ellir yn rhesymol ddisgwyl i berson symud y baw ci.

2. Nid yw'r darpariaethau yn **Rhan 5** o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i

(a) Gi a hyfforddwyd gan elusen gofrestredig i gynorthwyo person ag anabledd ac y mae'r person anabl yn dibynnu arno am gymorth.

Materion Eraill

1. At ddibenion y Gorchymyn hwn cymerir bod person y mae ci yn ei feddiant fel rheol yn cael ei gymryd i fod yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai bod person arall â chyfrifoldeb dros y ci ar y pryd.

2. Os yw'r person sy'n gyfrifol am gi yn dymuno dibynnu ar unrhyw un o'r eithriadau a nodir yn y Gorchymyn hwn, bydd y baich ar y person i brofi eu bod yn bodloni gofynion yr eithriad yn dibynnu arni.

Trosedd

Mae'n drosedd i berson, heb esgus rhesymol -

(a) I wneud unrhyw beth y mae person wedi ei wahardd rhag gwneud gan y Gorchymyn hwn Neu

(b) I fethu â chydymffurfio â gofyniad y mae person yn ddarostyngedig iddo o dan y Gorchymyn hwn,

Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy sydd ddim yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol

Cosb Benodedig

Gall Berson Awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un mae ef neu hi yn credu sydd wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan y Gorchymyn hwn. Bydd gan berson 14 diwrnod i dalu'r gosb benodedig £100, neu swm gostyngedig o £75 os telir o fewn 7 diwrnod. Bydd methiant i dalu'r gosb benodedig yn arwain at erlyniad.

Apeliadau

Rhaid gwneud unrhyw her i'r Gorchymyn hwn yn yr Uchel Lys gan berson â diddordeb o fewn chwe wythnos iddo gael ei wneud. Person sydd â diddordeb yw rhywun sy'n byw, gweithio'n rheolaidd, neu'n ymweld ag unrhyw un o'r ardaloedd a effeithir gan y Gorchymyn hwn. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai sydd wedi'u heffeithio yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r pŵer i'w herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli lle mae gorchymyn yn cael ei newid gan y Cyngor.

Gall bersonau â diddordeb herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar ddwy sail: nad oedd gan y Cyngor bŵer i wneud y Gorchymyn, neu i gynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol; neu ni chafodd un o ofynion y ddeddfwriaeth ei gydymffurfio â hwy mewn perthynas â'r Gorchymyn.

Dyddiedig y 16eg diwrnod o HYDREF 2017.

Gosodwyd Sêl Gyffredin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ym mhresenoldeb:

Swyddog Awdurdodedig

21-25

ATODIAD 1 - MANNAU CHWARAE AML-DDEFNYDD

Lledred	Hydred	Enw
51.5945107	-3.2671414	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Abertridwr
51.7415079	-3.25702768	Man Chwarae Aml-ddefnydd Abertyswg
51.6856255	-3.23493751	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Bargod
51.6808959	-3.21944777	Man Chwarae Aml-ddefnydd Britannia Angel
51.6709691	-3.20726518	Man Chwarae Aml-ddefnydd Lles Cefn Fforest (Teras Tŷ Isha)
52.5508124	-3.25981263	Man Chwarae Aml-ddefnydd Canolfan Ieuenctid Cefn Hengoed
51.6933142	-3.22109819	Man Chwarae Aml-ddefnydd Stryd Cwrt Coch, Aberbargod
51.7431826	-3.29571802	Man Chwarae Aml-ddefnydd Fochriw
51.5965294	-3.16428772	Man Chwarae Aml-ddefnydd Graig-y-rhaca
51.6684689	-3.22984349	Man Chwarae Aml-ddefnydd Glan-y-nant
51.7244664	-3.24712955	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc y Llwyni
51.7028143	-3.20757739	Man Chwarae Aml-ddefnydd Cae'r Brenin Sior, Markham
51.6046813	-3.22986605	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Llanbradach
51.6517341	-3.12506937	Man Chwarae Aml-ddefnydd Llanfach
51.594275	-3.25702768	Man Chwarae Aml-ddefnydd Machen
51.65337	-3.19430789	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc y Faenor, Penllwyn
51.5783763	-3.22595183	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Morgan Jones
51.5750934	-3.22603664	Man Chwarae Aml-ddefnydd Owain Glyndŵr
51.7562152	-3.27979167	Man Chwarae Aml-ddefnydd Pwll Paddy
51.5864672	-3.24236486	Man Chwarae Aml-ddefnydd Pen-yr-heol
51.743452	-3.28016959	Man Chwarae Aml-ddefnydd Pontlotyn
51.5811116	-3.2031932	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Porset
51.6048628	-3.27521287	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Senghenydd
51.661016	-3.222829	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Trelwyn
51.7067908	-3.26209997	Man Chwarae Aml-ddefnydd Tafarn y Darran
51.6159244	-3.12276799	Man Chwarae Aml-ddefnydd Parc Waunfawr, Cross Keys
51.6812294	-3.22971196	Man Chwarae Aml-ddefnydd Stryd William, Gilfach
51.6241232	-3.18690884	Man Chwarae Aml-ddefnydd Ynys-ddu

Meysydd Chwarae

Lledred	Hydred	Enw
51.5947733	-3.2677984	Parc Abertridwr
51.7425805	-3.2601425	Maes Pentref Abertyswg
51.5665426	-3.24224	Clôs Ashman, Ystâd Trem y Castell, Caerffili
51.5669958	-3.1986796	Heol Attlee, Coed Duon
51.5691548	-3.2443601	Clôs Badham, Ystâd Trem y Castell, Caerffili
51.6843204	-3.2401818	P.E.P. Bargod (Trem y Parc)
51.6859422	-3.2347436	Parc Bargod

51.5730167	-3.2156345	Stryd Bartlett
51.6260942	-3.1876104	Stryd y Bont, Ynys-ddu
51.6804539	-3.2195805	Maes Chwarae Britannia Angel
51.6136266	-3.1556985	Maes Chwarae Brynawel, Wattsville
51.7756861	-3.159835	Y Drenewydd, Rhymni
51.6714518	-3.2066706	Lles Cefn Fforest
51.6520761	-3.2342132	Canolfan Ieuenctid Cefn Hengoed
51.6502734	-3.2260552	Heol y Cefn, Hengoed
51.5680728	-3.2454848	Clos Gwylne, Fferm y Cwm, Caerffili
51.6749495	-3.1419292	Parc Crymlyn
51.6518917	-3.2423175	Cwm Calon, Ystrad Mynach
51.6120366	-3.2247068	Cwm Las, Gwaith Wingfield, Llanbradach
51.7154139	-3.2350252	Maes Chwarae'r Diemwnt, Ffordd y Rhosyn Gwyn, Tredegar Newydd
51.5936651	-3.165687	Llys Dickens, Graig-y-rhaca
51.5950726	-3.2131194	Dol y Pandy, Bedwas
51.5800409	-3.1243944	Pentref Draethen
51.6156031	-3.1476171	Teras Dyffryn, Wattsville
51.6663699	-3.2164115	Gwaelod Trem Hyfryd, Coed Duon
51.6334397	-3.1265672	Rhes Feeder, Cwmcarn
51.6141954	-3.097378	Fernlea, Rhisga
51.5946102	-3.1454998	Heol y Ffwrwm, Machen
51.6662516	-3.1578472	Parc y Caeau, Trecelyn
51.63155	-3.2391463	Melin yr Efail, Ystrad Mynach
51.6596768	-3.1653131	Coedlan Fox, Pentwyn-mawr
51.6625331	-3.1960236	Stryd Garfield, Coed Duon
51.7112632	-3.2651193	Glynderw, Deri
51.5795433	-3.2355661	Clôs y Plasty, Trecenydd
51.6838153	-3.1204547	Neuadd Les Hafodyrynys
51.6686086	-3.2293845	Stryd Hanbury, Pengam
51.5788705	-3.2060348	Llys Hartshorn, Parc Lansbury
51.5803168	-3.2474504	Ysgol Gynradd Parc Hendredenny
51.6029324	-3.0785664	Coedlan Herbert, Pont-y-meistr
51.7539239	-3.275511	Stryd y Bryn, Rhymni
51.720181	-3.211558	Maes Rygbi Llwyncelyn
51.6824322	-3.1463701	Bryn Kendon, Crymlyn
51.6511535	-3.1395819	Cae'r Brenin Sior, Abercarn
51.7024902	-3.2076122	Cae'r Brenin Sior, Markham
51.6977808	-3.2161107	Stryd Lewis, Aberbargod
51.6050247	-3.229702	Parc Llanbradach
51.6516437	-3.1251249	Llanfach (Sgwâr Clytha)
51.6519558	-3.2889224	Llwyn Yr Eos, Nelson
51.5941566	-3.1338813	Maes Chwarae Lles Machen, Trem Bovil, Machen
51.640938	-3.2219304	Parc Maes-y-cwmwr
51.6793105	-3.2292116	Stryd Maesygraig, Gilfach
51.7232088	-3.1889089	Pentref Man-moel
51.637176	-3.1335525	Stryd Marne, Cwmcarn

51.5781942	-3.2253119	Parc Morgan Jones, Caerffili
51.6704772	-3.2398036	Rhaeadr Mount Pleasant
51.6757094	-3.1796665	Maes Adloniant Oakdale
51.6711415	-3.1877183	Teras Oakdale, Penmaen
51.6631614	-3.1483993	Teras Panteg,Trecelyn
51.6412101	-3.2473581	Lôn y Parc, Tredomen
51.5739109	-3.2410123	Parc Penrhos, Heol y Tywysog Du, Caerffili
51.6558455	-3.2501886	Pen-y-bryn, Penallta
51.69778	-3.1455425	Clôs Pen-y-fan, Trinant
51.6975501	-3.1947909	Heol Penylan, Argoed
51.5867378	-3.2422856	Parc Pen-yr-heol, Caerffili
51.7230906	-3.2377825	Canolfan Gymunedol Treffilip
51.6016125	-3.0871262	Maes Athletau Pont-y-meistr
51.581226	-3.2034416	Parc Porset, Caerffili
51.7385664	-3.2960349	Rhodfa Ganol, Fochriw
51.7617953	-3.2834271	Parc Rhymni
51.612619	-3.1015139	Stryd Rifleman, Rhisga
51.6079013	-3.1002444	Parc Rhisga
51.5942068	-3.1379826	Llannerch-yr-afon, Machen
51.6751235	-3.1462289	Y Cilgant Brenhinol, Treowen
51.578818	-3.1721765	Pentref Rhydri
51.6577627	-3.2183495	Stryd yr Ysgol, Pengam (Trelyn)
51.7241042	-3.2507536	Stryd yr Ysgol, Tirphil
51.6050583	-3.2754205	Parc Senghenydd
51.6729838	-3.2037033	Maes Sioe Coed Duon
51.6579902	-3.1900345	Parc Sir Harold Finch, Pontllan-fraith
51.6178996	-3.1798999	Stryd Stanley, Cwmfelin-fach
51.644152	-3.2404149	Heol yr Orsaf, Ystrad Mynach
51.7427047	-3.2802643	Trem Heulog, Pontlotyn
51.6003514	-3.0776245	Tanybryn, Pont-y-meistr
51.7129901	-3.2337867	Teras Tennyson, Brithdir
51.5927381	-3.1899593	Y Bryn, Tretomos
51.6519942	-3.2796578	Y Wern, Nelson
51.6647396	-3.1912524	Heol Thorncombe, Coed Duon
51.6615247	-3.2292361	Lles Tir-y-berth
51.6616849	-3.2268115	Stryd William, Tir-y-berth
51.628345	-3.1280735	Heol Twyncarn, Pont-y-waun
51.5739109	-3.2410123	Tŷ Coch, Rhymni
51.611103	-3.089577	Man Agored Tŷ Sign (Heol y Celyn)
51.5838419	-3.2157213	Parc Firginia
51.6608725	-3.2176088	Stryd Warne, Trelyn
51.6178517	-3.1271343	Parc Waunfawr, Cross Keys
51.5921747	-3.1984907	Parc Waunganol, Bedwas
51.674397	-3.1293333	Cwrt yr Helyg, Cefn-y-pant
51.6646634	-3.1520231	Coedlan Windsor, Trecelyn
51.6630798	-3.1891124	Parc Woodfieldside

51.6140333	-3.280265	Teras y Goedwig, Senghenydd
51.6392566	-3.1895295	Pentref Wyllie (Heol Glanhowy)
51.6931488	-3.221441	Stryd yr Ywen, Aberbargod
51.6365055	-3.2364925	Parc Ystrad Mynach

ATODIAD 2 Gardd Coffa

Dwyreiniad	Gogleddiad	Lledred	Hydred	Enw	Lleoliad
315524	200091	51.6931895	-3.2235689	Giatiau Coffa Rhyfel Aberbargod	Y Stryd Fasnachol, Aberbargod
321607	194950	51.6478585	-3.1344261	Cofeb Ryfel Abercarn	Y Stryd Fawr, Abercarn
313064	205583	51.7421807	-3.2605225	Cofeb Ryfel, Abertyswg	Stryd Walter, Abertyswg
315056	202164	51.7117531	-3.2308438	Cofadail Brithdir	Gerddi Goffa Sant Paul, Teras Harcourt, Brithdir
322057	193497	51.6348594	-3.1275993	Cofeb Ryfel Cwmcarn	Y Parc Goffa, Stryd Ivor, Cwmcarn
318565	191720	51.6183899	-3.1776304	Cofeb Ryfel Cwmfelin-fach	Gerddi Glan-y-nant, Cwmfelin-fach
315264	198488	51.6787407	-3.2269398	Gardd Heddwch, Cofeb Heddwch a Chloc	Y Stryd Fasnachol, Gilfach
315509	197077	51.666094	-3.2230555	Cofeb Ryfel Pengam a Threlyn	Heol Saint David's, Pengam
311583	206281	51.7482229	-3.2821442	Cofeb Ryfel Pontlotyn	Stryd y Capel, Pontlotyn
323971	190270	51.6061123	-3.099248	Cofeb Ryfel Pont-y-meistr (Sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cofeb Rhyfel Pont-y-waun)	Gerddi Coffa, Y Stryd Fasnachol, Pont-y-meistr
311401	207528	51.7594032	-3.285098	Cofeb Ryfel Rhymni	Y Stryd Fawr, Rhymni
323402	191402	51.6162113	-3.1077104	Cofeb Ryfel Rhisga	Stryd y Santes Fair, Rhisga
314007	203216	51.7210495	-3.2462827	Cloc Goffa Rhyfel Tirphil	Rhes yr Orsaf, Tirphil